# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 8 Hydref 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Val Lloyd (Dwyrain Abertawe);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr effaith a gaiff y ddogfen "Cymru: Gwlad Well" ar ardaloedd difreintiedig Cymru, fel y tair ardal Cymunedau yn Gyntaf yn Nwyrain Abertawe. (WAQ28696)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei bolisïau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. (WAQ28695)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion costau ymweliadau tîm Adeilad Newydd y Cynulliad, gan gynnwys costau teithio, gwesty a chynhaliaeth, ar wahân i'w hymweliad â'r Alban. (WAQ28674)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Ar wahân i'r Alban, ble arall, yn y DU a thramor, y mae tîm Adeilad Newydd y Cynulliad wedi ymweld ag ef ar fusnes y Cynulliad. (WAQ28675)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw cyfanswm cost ymweliadau tîm Adeilad Newydd y Cynulliad â Chaeredin hyd yn hyn, gan gynnwys costau teithio, gwestai a chynhaliaeth. (WAQ28676)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint a amcangyfrifir oedd cost anfon yr wyth aelod o dîm Adeilad Newydd y Cynulliad i Gaeredin ddiwedd Medi 2003, gan gynnwys costau teithio, gwestai a chynhaliaeth. (WAQ28677)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddweud pa fanteision sydd wedi deillio o ymweliadau aelodau tîm Adeilad Newydd y Cynulliad â'r Alban a mannau eraill i fusnes y Cynulliad. (WAQ28678)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddweud pam oedd angen anfon yr wyth aelod o dîm Adeilad Newydd y Cynulliad i Gaeredin ddiwedd Medi 2003. (WAQ28679)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl gwaith y mae aelodau o dîm

Adeilad Newydd y Cynulliad wedi ymweld â Chaeredin ar fusnes y Cynulliad. (WAQ28680)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar waith tîm Adeilad Newydd y Cynulliad. (WAQ28681)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth yw'r dulliau a'r amserlen ar gyfer talu'r £3.5 miliwn a ddyrannwyd yng nghyllideb eleni ar gyfer ysgolion bach a gwledig. (WAQ28682)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** Ym maes Cymunedau'n Gyntaf, gyda golwg ar y berthynas rhwng y partneriaethau lleol a'r cyrff atebol a adwaenir bellach fel 'grantîs', a oes cytundeb safonol wedi ei lunio yn diffinio statws cyfreithiol a chyfrifoldebau'r 'grantî'. (WAQ28697) **W R**

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** Ym maes Cymunedau'n Gyntaf, os nad oes cytundeb safonol wedi ei lunio rhwng partneriaethau a'r grantî, pa bryd bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi'r ddogfen.(WAQ28698) **W R**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd yn ystod blwyddyn nesaf y Cynulliad (ar ôl ymgynghori) er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth sylfaenol i ddatrys materion rheoli tir comin yng Nghymru yn cael ei hyrwyddo yn San Steffan. (WAQ28683)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** O gofio bod y Gweithgor Rhanddeiliaid ar ddefnyddio a rheoli tir comin yn amaethyddol wedi cynnig strwythur o gyrff cynghori ar gyfer Lloegr yn unig, pa strwythur y mae'r Gweinidog yn ei ragweld ar gyfer Cymru. (WAQ28684)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i sefydlu fframwaith rheoliadol i reoli twbercwlosis ym mhoblogaeth moch daear Cymru. (WAQ238685)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa opsiynau y mae'r Gweinidog yn eu hystyried i atal y cynnydd mewn twbercwlosis yng ngwartheg Cymru, ac i sicrhau gostyngiad yn hyn o beth. (WAQ28686)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A yw'r Gweinidog yn ystyried profiadau Canada wrth drafod gyda'i gydweithwyr yn y DU ac yn Ewrop y posibilrwydd o dyfu cnydau wedi'u haddasu'n enetig ochr yn ochr â chnydau traddodiadol. (WAQ28687)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw gynlluniau wrth gefn o ran pasportau i geffylau a reolir gan sipsiwn crwydrol yng Nghymru. (WAQ28688)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A all y Gweinidog ddweud a fydd yn dilyn arweiniad DEFRA gan gynnig eithrio pobl sydd â greoedd rhydd o ferlod Cymreig sy'n cael eu cadw ar hyn o bryd ar dir comin rhag gorfod cael pasportau ceffylau. (WAQ28689)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ymdrechion a fu i gynnig cymorth rheoli a marchnata i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, ac os y bu, a all e roi unrhyw fanylion. (WAQ28690)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi cynnal unrhyw gyfarfodydd gyda Bwrdd Croeso Cymru, Cyngor Sir Caerfyrddin, ac unrhyw randdeiliaid eraill ynghylch dyfodol Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, os do, all e roi manylion am y cyfarfodydd hynny, ac os na, a yw'n fwriad ganddo gynnal cyfarfodydd o'r fath. (WAQ28691)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am unrhyw gymorth ariannol a/neu unrhyw gymorth arall a gynigiwyd i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, ac ar ba delerau y cynigiwyd y cymorth. (WAQ28692)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog sicrhau ei fod yn gwneud datganiad lafar i Aelodau'r Cynulliad mewn perthynas â'r trafodaethau a gynhaliwyd ar ddyfodol Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn yr wythnos yn cychwyn 6 Hydref 2003. (WAQ28693)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag Ymddiriedolwyr Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ers 1 Mai 2003, beth oedd diben unrhyw gyfarfodydd ac a wnaiff e roi manylion amdanynt. (WAQ28694)